

ECAD4002C

Darlith 2

Sillafu a Threiglo!!


www.canolfanpeniarth.org

Nod

- Adolygu'r rhannau ymadrodd
- Cyflwyno rheolau sillafu
- Taclo'r treigladd meddal...
 - Canfod beth yw'r rheolau
 - Gweithgareddau i adolygu'r rheolau


www.canolfanpeniarth.org

Awdit 1

- Edrychwch dros yr awdit a gwiriwch y marciau.
- Bydd o leiaf un targed iaith wedi ei nodi ar yr ail ran. Edrychwch ar y rhan gyntaf, a nodwch darged(au) iaith arall (eraill).
- Y targedau hyn fydd yn ffurfio eich blog cyntaf – erbyn diwedd mis Hydref.
- Bydd angen i mi gasglu'r papurau yn ôl ar ddiwedd y ddarlith.


www.canolfanpeniarth.org

Gêm Fwrdd

Chwaraewch y gêm
fwrdd i adolygu'r
rhannau ymadrodd



www.canolfanpeniarth.org

Teuluoedd Geiriau

1.7 Grid Geiriau Llewych y bylechau!

Enw	Ansoddair	Berfenw
Mae angen ar blant.	Mae polisïau addysgol yn newid o hyd.	Bu'r athrawon yn addysgu'r plant yn ofalus.
Mae mewn ysgolion a cholegau'n bwysig.	Mae'r gyfrinach yn ddiogel gyda fi.	Mae plant rhag damweiniau'n rhan o waith athrawon.
Heb gryfder cymeriad, gall pethau fynd o chwith.	Gwnaethom benderfyniad cryf a doeth.	Mae angen r polisi.
Does neb byth yn cael gormod o sylw.	Mae hi'n gweld popeth, ac yn berson iawn.	Paid â phoeni, fydd hi ddim yn
Mae y bydd y disgybl hwn yn cael canlyniadau gwael.	Er bod rhai arbrofion yn ddiogel i'w gwneud yn y dosbarth, mae eraill yn rhai peryglus.	Mae ymddygiad gwael yn enw da'r ysgol.
Mae ymarfer yn rhan allweddol o'r pwnc hwn.	Mae angen gwneud tasgau mwy	Rhaid i chi ysgrifennu'n dachus yn eich llyfrau.
Rhaid i chi roi i rai o'r materion hyn.	Nid yw hi'n berson iawn.	Does neb yn ystyried y canlyniadau.
Mae ambell yn gallu bod yn beryglus.	Mae'r polisi hwn yn un arbrofol.	Mae angen cyn penderfynu ar y cynllun terfynol.
Mae Euros Rhyb yn ar gyfansoddi.	Roedd y diwrnod hwnu'n un arbennig iawn.	Mae llawer o gyrtau'n cynyg cyfle i chi mewn maes penodol.
Mae pennaeth yr ysgol hon yn credu'n gryf mewn disgyblach.	Mae Catrin yn berson iawn.	Mae polisi gan bob ysgol.

Pwysigrwydd Sillafu



www.canolfanpeniarth.org

Sillafu



Sawl 'n' sydd yn y gair 'penderfynu'?

Oes to bach ar tŷ?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'cofrestri' a 'cofrestru'?

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Dyblu'r 'n' a 'r' ...

Rhai rheolau i'n helpu i wybod sawl 'n' neu 'r'!

Dywedwch "tôn".
Nawr, dywedwch "ton"
Beth yw'r gwahaniaeth?

Nawr, beth sy'n digwydd pan fyddwn ni'n ychwanegu sillaf ...

tôn > tonau
ton > tonnau

Os yw'r llafariad yn hir mewn gair unsill, dydyn ni ddim yn dyblu wrth ychwanegu sillaf, e.e. môr > moroedd, tôn > tonau, OND ton > tonnau achos llafariad byr sydd yn y gair unsill.

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Dyblu 'n' a 'r' ...

Os ydyn ni'n ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen yn '-nt', rydyn ni'n colli'r 't' ac yn dyblu'r 'n', e.e. cant > cannoedd, punt > punnoedd

llwyddiant > llwyddiannus

diwylliant > diwylliannol

peiriant > peiriannau

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Dyblu 'n' a 'r' ...

Mae'r "n" yn dyblu os ydym yn ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen gyda -en neu -yn:

llythyren – llythrennau

llyfryn – llyfrynau

dogfen – dogfennau

offeryn – offerynnau



*Mae emyn, gwenyn a telyn yn eithriadau.
Os ydyn ni'n ychwanegu mwy nag un sillaf, does dim angen dyblu'r 'n' –
ysgrifen > ysgrifennu OND
ysgrifenyddes



Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

Dyblu 'n' a 'r' ...

Nid yw "n" yn dyblu mewn geiriau sy'n gorffen gyda -iwn, -ion (benthyciadau o'r Saesneg) os ydym yn ychwanegu sillaf:

cwestiwn – cwestiynau cwestiynu

ffasiwn – ffasiynau ffasiynol

fersiwn – fersiynau



Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

Dyblu 'n' a 'r' ...

Mae 'an' (negyddol) o flaen gair sy'n dechrau â 't', 'd' neu 'n' fel arfer yn troi'n 'ann' ...

an + t = annh an + tebyg = annhebyg

an + d = ann an + dymunol = annymunol

an + n = ann an + naturiol = annaturiol

OND os oes cytsain arall yn dilyn y 'd' neu'r 't', yn y ffurf wreiddiol, yna does dim angen dyblu 'n',

e.e. trefn > anh refn.



Peniarth

www.canolfanpeniarth.org

Dyblu 'n' a 'r' ...

Nid yw "n" yn dyblu o flaen y terfyniadau
-wyr, -ion, -iad

diflannu – diflaniad
offerynnau – offerynwyr
gwynnu – gwynion
gyrru – gyrwyr



www.canolfanpeniarth.org



Ydy'r geiriau hyn yn gywir?

- anifyr
- anhrefn
- anniddorol
- ysgrifennyddes
- canu

Allwch chi ddweud pam?



www.canolfanpeniarth.org



Beth yw ffurf lluosog y geiriau yma?

Man	Môr	Pennawd
Dant	Gyrwr	Cwestiwn



www.canolfanpeniarth.org



Dewiswch y ffurfiau cywir ...

1. Mae'r diwydiant yn wynebu nifer o
(doriadau/dorriadau)
2. Mae'n rhaid i chi r penderfyniad
(gwestiynnu/gwestiynu)
3. Mae'r sefyllfa yn (anheg/annheg)
3. Wyt ti wedi dod o hyd i'r?
(cyfrifiaduron/cyfrifiadurron)

Peniarth www.canolfanpeniarth.org



'i' neu 'u'??

- 'o' yng nghanol berfenw = 'i' ar y diwedd, e.e. colli, pori
- 'a' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. canu, taranu
- 'y' neu 'w' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu
- 'w' yn agos at diwedd berfenw = 'i' yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi
- Gyda geiriau tebyg eu sain, mae berfenwau fel arfer yn gorffen gydag u, ac enwau lluosog yn gorffen gydag i, e.e. rhestru (*to list*), rhestri (*lists*)


Peniarth www.canolfanpeniarth.org



Ymarferion ...

Trowch at y pecyn ymarferion. Gyda phartner, cwblhewch yr ymarferion 'i' neu 'u'.

Peniarth www.canolfanpeniarth.org



Y to bach ...

- Mae to bach ar y llafariad 'a', 'e', 'o', 'w', 'y' os ydyn nhw'n hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda 'l', 'n' neu 'r', e.e. sêr, pêl, sŵn
- Mae to bach mewn geiriau â rwy nag un sillaf os yw'r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. ar wahân.
- Mae to bach ar lafariad hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda'r cytseiniaid 'p', 't', 'c', 'm', e.e. tîm, plât, grŵp.
- Does dim angen to bach mewn geiriau unsill sy'n gorffen gyda llafariad, e.e. to, te. OND , mae tŷ yn eithriad.

COFIWCH: Mae to ar y tŷ, ond does dim to ar y to!

Peniarth www.canolfanpeniarth.org



Y Treigladau

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Beth yw'r treigladau?

Treigladau yw pan fydd llythyren gyntaf gair yn newid.

Gan amlaf, dim ond y llythyren gyntaf fydd yn newid.

Y Gymraeg yw'r unig iaith yn y byd sy'n defnyddio'r treigladau.

Gan amlaf, y gair yn union o flaen y gair fydd yn achosi'r treigladau.

Mae 3 math gwahanol o dreigladau – meddal, trwynol a llaes.

Dydys'r treigladau ddim yn effeithio ar bob llythyren yn yr wyddor...

treigladau meddal – 9 llythyren
treigladau trwynol – 6 llythyren
treigladau llaes – 3 llythyren

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Tabl Treiglo	Meddal	Trwynol	Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Pam eu bod nhw'n bwysig i ni?

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Cwricwlwm Cymru	Mae plant yn gallu:	Mae plant yn gallu:
	defnyddio cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pwyd?' a 'Sut?', at ddebenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth	paratoi a gofyn cwestiynau amrywiol, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pwyd?' a 'Sut?', at ddebenion amrywiol ac i gadarnhau dealltwriaeth
	defnyddio cyfithreniad ac odl	defnyddio cyfithreniad ac odl mewn ystod o gysylltunau
	defnyddio rhythm ac odl i greu llafaregusau, odiau a cherddi syml	defnyddio rhythm ac odl i greu llafaregusau, odiau a cherddi mwy cymhleth
	dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. y ferch	defnyddio amleu dreigl y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. y bêl, fy mag, fy dref
Fframwaith y Cyfnod Sylfaen	gwrando ar erall, â sylw cynyddol, gan ymuno yn brodorol i'r arfer, e.e. dilyn cyfarwyddiadau'n gywir	gwrando ar erall gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Cyfnod Allweddol 2 ...

Cwricwlwm Cymru

Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2-4

Llinyn: Llafaredd

Blwyddyn	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Enfennau				
Agweddau				
Stardad				
Dealltwriaeth a Chyflwyno gwybodaeth a gyswllt	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd
	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd
	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd
	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd	defnyddio treigladau mwyaf cyffwrdd yn gwerfwrdd, e.e. ar bwrdd

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Cymraeg Ail Iaith



Cyfodau Allweddol 2-4



www.llysoecymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio

Ysgrifennu

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiâu a ddefnyddir
2. defnyddio a chysylltu amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a brawddegau yn gywir, gan gadarnhau'r gystrawen Gymraeg a defnyddio paragraffau lle bo'n briodol
3. defnyddio atalodi i gyfleu ystyr priodol, gan gyflwyno:

5. methrin cywirdeb trwy:

- ddefnyddio ffurfiâu berfol (amser a pherson)
- neigysu brawddegau
- defnyddio arddodiaid
- treiglo
- defnyddio cenedi enwau

6. sillafu geniau syml yn gywir a gwirio'u sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TIGCh.



www.canolfanpeniarth.org

Y Treigladd Meddal



gwreiddiol	treigladd
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	-
ll	l
m	f
rh	r



www.canolfanpeniarth.org

Eich tro chi...

Darllenwch y cliwiau er mwyn darganfod beth yw'r rheolau ar gyfer y treigladd meddal...



Eisiau her?

Nawr meddyliwch am wahanol ffyrdd o gofio'r rheolau hyn. Gallwch ddefnyddio lluniau, rhigymau ayyb...



www.canolfanpeniarth.org

Rheolau'r Treigladd Meddal...

Bydd enwau benywaidd unigol yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod

Bydd ansoddeiriau sy'n disgrifio ebu yn treiglo'n feddal

Bydd enwau ac ansoddeiriau yn treiglo'n feddal ar ôl 'yn' (yn golygu 'is')

Bydd gwrthrych berf bersonol gwyno yn treiglo'n feddal

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Rheolau grŵp 2 ...

Bydd treigladd meddal ar ôl yr arddodiaid.

Bydd berfau'n treiglo'n feddal ar ôl 'A' ar ddechrau cwestiwn ... A welaist ti'r ddrama?

Bydd TM ar ôl y rhagenwau 'dy' ... dy bensil dy wraig

Bydd berfau negyddol yn treiglo'n feddal ag eithrio P, T a C fydd yn treiglo'n llaes

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Rheolau grŵp 3 ...

Bydd TM ar ôl y rhagenw 'ei' (gwr) ... ei got e ei fag e

Bydd enwau yn treiglo'n feddal ar ôl 'dau' a 'dwy'

Bydd ebu yn treiglo'n feddal ar ôl 'un'.

Rhaid treiglo'n feddal wrth gyfarch ... Bore da, blant Gyfeillion, croeso i'r ...

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Rheolau grŵp 4 ...

Bydd enwau
sy'n dilyn
ansoddair yn
treiglo'n
feddal,

Bydd TM ar ôl y
cysylltair 'neu' ...
ci neu **gath**

Bydd TM ar ôl 'dyma'
neu 'dyna'...
Dyna **dda** ...
Dyma **waith** gwych

Bydd TM ar ôl
'mor'
mor **fawr** â

Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Ble mae'r talent??

- Edrychwch ar eiriau'r caneuon poblogaidd – ble mae'r treigladau?
- Ydych chi'n gallu dweud pam eu bod nhw wedi treiglo?
- Beth ydych chi'n ei wybod am y geiriau sydd wedi eu tanlinellu?



Peniarth www.canolfanpeniarth.org

Gwaith Cartref / Dysgu Cyfeiriol

- Adolygu'r rheolau sillafu.
- Adolygu a dysgu'r rheolau treiglo
- Cwblhau ymarferion y daflen 'dysgu cyfeiriol'
- Prawf sillafu yn y ddarlith nesaf!

Peniarth www.canolfanpeniarth.org